# Adolygiadau Ansawdd Porth: adroddiad thematig diwedd cylch ar gyfer sesiynau 2017-18 i 2023-24

## Cyflwyniad

Ar ran Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr), mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) yn cynnal Adolygiadau Ansawdd Porth (GQRs) o ddarparwyr addysg uwch i brofi eu darpariaeth Addysg Uwch (AU) yn erbyn y gofynion rheoleiddio ansawdd sylfaenol yng Nghymru. Mae'r QAA hefyd yn ailbrofi agweddau ansawdd y gofynion rheoleiddio sylfaenol ar ddiwedd cyfnod o bedair blynedd, pan gaiff ei gyflogi gan y darparwr i wneud hynny. Mae dull Adolygiad Ansawdd Porth yn cydymffurfio â Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG).

Nod cyffredinol Adolygiad Ansawdd Porth yw rhoi barn arbenigol i Medr ynghylch sicrhau ansawdd darpariaeth AU darparwr.

Cyhoeddir pob adroddiad ar dudalennau gwe Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch.

Mae'r Adolygiad Ansawdd Porth wedi'i gynllunio i:

- sicrhau bod buddiannau myfyrwyr yn cael eu diogelu
- darparu cyngor arbenigol i sicrhau bod enw da system addysg uwch y DU yn cael ei ddiogelu, gan gynnwys diogelu safonau academaidd
- nodi meysydd i'w datblygu a/neu welliannau penodol a fydd yn helpu'r darparwr i fodloni'r gofynion rheoleiddio sylfaenol

# Amseriad Adolygiadau Ansawdd Porth

Yn y cylch rhwng 2017-18 a 2023-24, cwblhaodd QAA 12 Adolygiad Ansawdd Porth, fel a ganlyn:

| Darparwr | Blwyddyn |
|---|---|
| Coleg Penybont | Mawrth 2021 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | Mawrth 2023 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | Mawrth 2019 |
| Canolfan y Dechnoleg Amgen | Mawrth 2022 |

| | |
|---|---|
| Coleg Cambria | Mai 2023 |
| Coleg Cambria | Mai 2019 |
| Coleg Gwent | Tachwedd 2023 |
| Coleg Gwent | Tachwedd 2019 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | Mai 2021 |
| Athrofa Padarn Sant | Mawrth 2024 |
| Athrofa Padarn Sant | Mawrth 2020 |
| Union School of Theology | Mai 2022 |

Wrth adrodd ar bum mlynedd o adolygiadau, mae pedwar darparwr wedi'u cynnwys ddwywaith: Athrofa Padarn Sant (2020 a 2024); Coleg Gwent (2019 a 2023); Coleg Cambria (2019 a 2023); Coleg Caerdydd a’r Fro (2019 a 2023).

## Dadansoddiad o ganlyniadau'r adolygiadau

### Dyfarniadau

Ar gyfer pob adolygiad, ffurfiodd y timau adolygu'r dyfarniadau positif canlynol am ddarpariaeth addysg uwch y darparwyr:

- gellir bod yn hyderus bod safonau academaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn eithaf cymharol â safonau a osodwyd ac a gyflawnwyd mewn darparwyr eraill yn y DU
- gellir bod yn hyderus bod ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr yn bodloni gofynion rheoleiddio sylfaenol perthnasol

### Meysydd i'w datblygu a gwelliannau penodol

Mae Y Llawlyfr Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru yn diffinio meysydd sydd angen eu datblygu a gwelliannau penodol fel:

*Mae meysydd sydd angen eu datblygu'n berthnasol i feysydd sydd â'r potensial, ym marn y tîm adolygu, i wella ansawdd a/neu sicrhau ymhellach ddibynadwyedd safonau academaidd a/neu allu'r safonau academaidd i gael eu cymharu.*

*Mae gwelliannau penodol yn ymwneud â materion sydd, ym marn y tîm adolygu, yn rhoi ansawdd a/neu safonau mewn perygl yn barod, neu a allai roi'r ansawdd a/neu'r safonau mewn perygl, ac sydd felly angen eu gwella.*

Roedd tri adolygiad heb unrhyw feysydd i'w datblygu: Coleg Gwent (2023); Coleg Caerdydd a'r Fro (2023); a Canolfan y Dechnoleg Amgen. Ar draws y naw adolygiad sy'n weddill, cynghorwyd darparwyr ar 18 maes i'w datblygu. Mae dadansoddiad o'r rhain yn y testun canlynol. Nid oedd unrhyw welliannau penodol ar gyfer unrhyw ddarparwyr.

Adolygwyd y 18 maes sydd i'w datblygu a nodwyd y themâu cyffredin canlynol, fel a ganlyn

(mae'r atodiad yn rhestru holl ganlyniadau'r adolygiad yn eu cyfanrwydd).

- **Cyfathrebu a rheoli gwybodaeth** (7 adolygiad – 13 canlyniad) – oedd y thema a gododd amlaf ar gyfer meysydd i'w datblygu. Roedd y meysydd yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau. Roedd un yn canolbwyntio ar ddiogelu defnyddwyr:
  - sefydlu gweithdrefn ffurfiol sy'n sicrhau bod yr holl ddeunyddiau marchnata yn cael eu diweddaru'n amserol i adlewyrchu newidiadau allanol wrth iddynt godi y tu allan i'r broses ddiweddaru flynyddol
  - cyfeirio gweithdrefn apeliadau derbyn yn gliriach i ddarpar fyfyrwyr
  - sicrhau bod costau ychwanegol ar gyfer cyrsiau perthnasol yn cael eu cyfeirio'n gliriach i ddarpar fyfyrwyr
  - adolygu a gwella hygyrchedd telerau ac amodau i bob myfyriwr yng nghyfnodau allweddol y broses derbyn, gan gynnwys darpariaeth Pearson
  - egluro ymhellach i fyfyrwyr gyfrifoldebau penodol y Coleg a chyfrifoldebau'r cyrff dyfarnu o ran apeliadau academaidd
  - egluro'r ddogfennaeth ganllaw sy'n ymwneud ag apeliadau academaidd ar gyfer myfyrwyr Pearson Higher National (UKQC)

  Roedd ail grŵp yn gysylltiedig â Chod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch:
  - hyrwyddo cyfleoedd yn gliriach ar gyfer achredu dysgu tystysgrifedig a phrofiadol blaenorol mewn deunyddiau ar gyfer ymgeiswyr ac i staff sy'n ymwneud â'r broses derbyn
  - mynegi ei ddisgwyliadau ar gyfer lefel addysgu, dysgu ac asesu addysg uwch yn gliriach mewn strategaethau perthnasol a chanllawiau cysylltiedig i staff
  - ystyried datblygu canllawiau dogfennol i gefnogi gwaith pob cyflogwr

  Dau ganlyniad yn ymwneud â'r Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon:
  - sicrhau bod manylebau rhaglenni ar gyfer rhaglenni Higher National Pearson yn bodloni gofynion y sefydliad dyfarnu
  - sicrhau bod y Manylebau Rhaglen a ddiffiniwyd gan y Coleg ar gyfer rhaglenni Higher National Pearson yn bodloni'r gofynion fel y'u diffinnir gan y corff dyfarnu

  Yn olaf, roedd un canlyniad yn ymwneud â sicrhau bod cylchoedd gorchwyl pwyllgorau'r Athrofa yn cael eu diweddaru i gynnwys ystyriaeth o risg academaidd gan gynnwys cwynion myfyrwyr; ac roedd un canlyniad yn cynghori cwblhau a gweithredu'r arolwg cyn-fyfyrwyr newydd i wella gwybodaeth er mwyn deall canlyniadau academaidd a phroffesiynol myfyrwyr yn well.

- **Datblygu prosesau** (dau adolygiad) – roedd y meysydd yn cynnwys parhau i ddatblygu prosesau sicrhau ansawdd mewnol; a ffurfioli adrodd ar gynnydd yn erbyn camau gweithredu a nodwyd mewn adroddiadau blaenorol yn y broses fonitro flynyddol ar lefel ysgol a'r coleg.

- **Asesu** (un adolygiad) – roedd y meysydd yn cynnwys datblygu amrywiaeth ehangach o ddulliau asesu; a sicrhau bod adborth asesu i fyfyrwyr yn cael ei ddarparu mewn modd amserol.

- **Hyfforddiant cynrychiolwyr myfyrwyr** (un adolygiad) – cryfhau ymhellach y broses sefydlu a chyfathrebu â chynrychiolwyr myfyrwyr.

## Crynodeb

I grynhoi, adroddodd timau adolygu am hyder ym mhob darparwr. Nid oedd gan dri adolygiad unrhyw feysydd i'w datblygu. Thema allweddol yn y meysydd i'w datblygu oedd rheoli ac eglurder gwybodaeth, a ymddangosodd mewn 7 o'r 12 adolygiad.

## Atodiad: Y meysydd sydd angen eu datblygu yn ôl darparwr

| | **Padarn** 2024 | **Gwent** 2023 | **Cambria** 2023 | **Coleg Caerdydd a’r Fro** 2023 | **Theol.** 2022 | **Canolfan y Dechnoleg Amgen** 2022 | **Gŵyr** 2021 | **Penybont** 2021 | **Padarn** 2020 | **Gwent** 2019 | **Cambria** 2019 | **Coleg Caerdydd a’r Fro** 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amrywiaeth o ddulliau asesu** | | | | | | | | | | | | |
| 1. Gweithio gyda'i chyrff dyfarnu i ddatblygu amrywiaeth ehangach o ddulliau asesu a fydd yn cefnogi ei myfyrwyr i gyflawni amrywiaeth ehangach o ddeilliannau academaidd a phroffesiynol | ☑ | | | | | | | | | | | |
| **Amseroldeb adborth asesu** | | | | | | | | | | | | |
| 2. Sicrhau y rhoddir adborth ar asesiadau i’r myfyrwyr mewn da bryd ac y cefnogir pob myfyriwr yn eu datblygiad academaidd a phroffesiynol | ☑ | | | | | | | | | | | |
| **Datblygu prosesau** | | | | | | | | | | | | |
| 3. Parhau i ddatblygu ei brosesau sicrhau ansawdd mewnol fel bod adolygiadau rheolaidd o'i arferion mewn perthynas â safonau ac ansawdd yn gallu ysgogi rhagor o ddatblygiad a gwelliant (Safonau). | | | ☑ | | | | | | | | | |
| 4. Cynnwys yn ffurfiol yn y broses fonitro flynyddol, ar lefelau’r ysgolion a'r Coleg, y broses o adrodd ar y datblygiad a wnaed yn erbyn y camau gweithredu a bennwyd yn yr adroddiadau blaenorol (y Cod Ansawdd) | | | | | | | | | | ☑ | | |
| **Hyfforddiant cynrychiolwyr myfyrwyr** | | | | | | | | | | | | |
| 5. Cryfhau’r broses sefydlu i gynrychiolwyr y myfyrwyr ymhellach, ynghyd â’r cyfathrebu a wneir â nhw, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu rolau’n effeithiol. | | | | | ☑ | | | | | | | |

## Atodiad: Y meysydd sydd angen eu datblygu yn ôl darparwr

| Atodiad: Y meysydd sydd angen eu datblygu yn ôl darparwr | **Padarn** 2024 | **Gwent** 2023 | **Cambria** 2023 | **Coleg Caerdydd a' r Fro** 2023 | **Theol.** 2022 | **Canolfan y Dechnoleg Amgen** 2022 | **Gŵyr** 2021 | **Penybont** 2021 | **Padarn** 2020 | **Gwent** 2019 | **Cambria** 2019 | **Coleg Caerdydd a' r Fro** 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli ac eglurder gwybodaeth** | | | | | | | | | | | | |
| 6. Sefydlu gweithdrefn ffurfiol sy'n sicrhau bod yr holl ddeunyddiau marchnata yn cael eu diweddaru mewn da bryd i adlewyrchu unrhyw newidiadau allanol wrth iddynt godi, y tu allan i'r broses ddiweddaru flynyddol (Diogelu'r Defnyddwyr). | | | | | | | | | | ☑ | | |
| 7. Hysbysebu'n fwy eglur, mewn deunyddiau i ymgeiswyr, y cyfleoedd i fyfyrwyr gael achrediad i'w dysgu ardystiedig neu brofiadol blaenorol, a sicrhau bod aelodau o'r staff sy'n cymryd rhan yn y broses dderbyn yn ymwybodol o'r cyfleoedd hynny (y Cod Ansawdd) | | | | | | | | | | ☑ | | |
| 8. Egluro'n well i'w staff, mewn strategaethau perthnasol ac arweiniad cysylltiedig, yr hyn a ddisgwylir gan y rheiny ohonynt sy'n cymryd rhan yn y gwaith o addysgu, dysgu ac asesu ar lefel addysg uwch (y Cod Ansawdd). | | | | | | | | | | ☑ | | |
| 9. Sicrhau bod cylchoedd gwaith pwyllgorau'r Athrofa'n cael eu diweddaru i gynnwys ystyried risgiau academaidd, gan gynnwys cwynion myfyrwyr (y Cod Llywodraethu). | | | | | | | | | ☑ | | | |
| 10. Ystyried datblygu canllawiau dogfennol i gefnogi gwaith pob cyflogwr (UKQC). | | | | | | | ☑ | | | | | |
| 11. Sicrhau bod manylebau rhaglenni Higher National Pearson yn bodloni gofynion y sefydliad dyfarnu (FHEQ). | | | | | | | | ☑ | | | | |

| **Atodiad: Y meysydd sydd angen eu datblygu yn ôl darparwr** | **Padarn** 2024 | **Gwent** 2023 | **Cambria** 2023 | **Coleg Caerdydd a’ r Fro** 2023 | **Theol.** 2022 | **Canolfan y Dechnoleg Amgen** 2022 | **Gŵyr** 2021 | **Penybont** 2021 | **Padarn** 2020 | **Gwent** 2019 | **Cambria** 2019 | **Coleg Caerdydd a’ r Fro** 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 12. Sicrhau bod Manylebau Rhaglenni a ddiffiniwyd gan y Coleg ar gyfer rhaglenni Higher National Pearson yn bodloni'r gofynion fel y'u diffinnir gan y corff dyfarnu (FHEQ). | | | | | | | ☑ | | | | | |
| 13. Cwblhau a gweithredu'r arolwg cyn-fyfyrwyr newydd i wella’r wybodaeth er mwyn deall canlyniadau academaidd a phroffesiynol myfyrwyr yn well. | | | | | ☑ | | | | | | | |
| 14. Gwneud y canllawiau’n fwy eglur sy’n ymwneud ag apeliadau academaidd ar gyfer myfyrwyr Higher National (UKQC) Pearson. | | | | | | | ☑ | | | | | |
| 15. Cyfeirio darpar fyfyrwyr yn fwy eglur at y drefn ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau derbyn (Diogelu’r Defnyddwyr). | | | | | | | | | | | | ☑ |
| 16. Sicrhau bod darpar fyfyrwyr yn cael eu cyfeirio’n fwy eglur at wybodaeth am gostau ychwanegol y cyrsiau perthnasol (Diogelu’r Defnyddwyr). | | | | | | | | | | | | ☑ |
| 17. Adolygu a gwella hygyrchedd yr amodau a thelerau i’r holl fyfyrwyr ar gamau allweddol o’r broses dderbyn, gan gynnwys darpariaeth Pearson (Diogelu’r Defnyddwyr) | | | | | | | | | | | ☑ | |
| 18. Rhoi eglurhad pellach i’r myfyrwyr o gyfrifoldebau penodol y Coleg a chyfrifoldebau'r cyrff dyfarnu mewn perthynas ag apeliadau academaidd (Diogelu’r Myfyrwyr). | | | | | | | | | | | | ☑ |
| Dim | | ☑ | | ☑ | | ☑ | | | | | | |

Cyhoeddwyd – 14 Gorffennaf 2025

© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2025

Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk